# Marchogaeth ceffylau wedi eu hyfforddi er mwyn cynnal eu hyfforddiant

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys marchogaeth ceffylau wedi eu hyfforddi er mwyn cynnal eu hyfforddiant. Dylech allu gwneud ymarferion a symudiadau sy'n briodol i lefel ffitrwydd a hyfforddiant y ceffylau, ac adrodd ar y cynnydd.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. dewis ac addasu harneisiau i fodloni gofynion unigol
3. mabwysiadu'r safleoedd marchogaeth priodol er mwyn cadw rheolaeth dros y ceffyl a chydbwysedd
4. marchogaeth ceffylau wedi eu hyfforddi mewn ffordd reoledig sy'n briodol i'r ardal waith a'r amodau
5. marchogaeth gyda chynllun clir gan ddangos ymwybyddiaeth o Raddfa(Graddfeydd) yr Hyfforddiant
6. cynnal symudiadau yn ddiogel yn unol â'r gofynion hyfforddi
7. monitro a chynnal cynnydd y ceffyl yn erbyn y gofynion hyfforddi, a hysbysu'r person priodol
8. gwneud argymhellion i'r person priodol am ofynion hyfforddi'r ceffyl i'r dyfodol
9. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. effeithiau hyfforddi'r ceffyl ar y meddwl a'r cyhyrau
3. ymddygiad ceffylau yn ystod cyfnodau gwahanol o'u hyfforddiant a'u ffitrwydd
4. y rhesymau dros fonitro a chynnal perfformiad
5. y defnydd o symudiadau a chymhorthion priodol yr hyfforddiant
6. pwysigrwydd mabwysiadu'r safle marchogaeth cywir ar gyfer hyfforddi ceffylau
7. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
8. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Marchogaeth dau geffyl yn ystod cyfnodau gwahanol hyfforddiant

Marchogaeth yn yr ardaloedd gwaith canlynol:

- man caeëdig
- man agored
- ar ffyrdd/priffyrdd cyhoeddus

Marchogaeth yn yr amodau canlynol:

- yn unigol
- mewn grwpiau

Gwneud y canlynol:

- cerdded
- trotian – codi ac eistedd
- hanner carlamu
- camau hwy
- ffigurau hyfforddi
- gwaith ochrol sylfaenol – plygu coes, troi o amgylch wrth y pen blaen
- newidiadau
- gwaith heb wartholion gyda'r tri symudiad

## Geirfa

Graddfa(Graddfeydd) Hyfforddiant

- rhythm/rheoleidd-dra
- ystwythder/ymlacio
- cyswllt/cysylltiad
- gyriad
- sythder
- casgliad

LANEq316

Marchogaeth ceffylau wedi eu hyfforddi er mwyn cynnal eu hyfforddiant

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq316 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Goruchwylydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; marchogaeth; hyfforddiant |